**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/378/2023

David Rees AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Biliau Diwygio

08 Tachwedd 2023

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Hydref 2023 sy'n nodi nifer o gwestiynau dilynol yn ymwneud â'm presenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 5 Hydref 2023, wrth i chi ystyried egwyddorion cyffredinol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Rwyf wedi nodi fy atebion i'r cwestiynau hyn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Yn gywir,

Mick Antoniw

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Atodiad: Ymatebion i gwestiynau dilynol ar ôl y sesiwn dystiolaeth lafar ar 5 Hydref 2023**

**Cefnogaeth wleidyddol i'r cynigion**

1) **A allech egluro pryd y daethoch i wybod am y llythyr a anfonwyd gan y Prif Weinidog ac arweinydd Plaid Cymru ar y pryd at y Pwyllgor Diben Arbennig ar 10 Mai 2022.**

Er eglurder, yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor, nid oeddwn wedi deall pan gyfeiriwyd at anfon "llythyr" at y Pwyllgor Diben Arbennig ei fod yn golygu'r Datganiad Safbwynt ar y Cyd ynghylch Diwygio'r Senedd,[1] a ddeilliodd o drafodaethau rhwng y Prif Weinidog ac Arweinydd Plaid Cymru, fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio.

Yn amlwg rwy'n ymwybodol o'r Datganiad Safbwynt ar y Cyd ynghylch Diwygio'r Senedd, ac rwy'n ymwybodol ei fod, yn ogystal â chael ei gyhoeddi, wedi'i anfon at gadeirydd y Pwyllgor Diben Arbennig trawsbleidiol ar Ddiwygio'r Senedd. Ei ddiben oedd ategu gwaith y pwyllgor.

2) **Pa wybodaeth y gallwch ei rhoi am y dystiolaeth sy'n sail i'r datganiad safbwynt ar y cyd ym mis Mai 2022, sut y daethpwyd i'w gasgliadau, neu'r dylanwad a gafodd ar yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig.**

Roedd y Datganiad Safbwynt ar y Cyd yn ystyried yr amrywiaeth o dystiolaeth a gasglwyd dros
yr ugain mlynedd diwethaf, gan gynnwys adroddiadau'r *Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn Richard)*, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad* a *Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf (y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd).*

Roedd y Datganiad hefyd yn ystyried y cynigion a gafodd eu pasio yng Nghynadleddau Llafur Cymru a Phlaid Cymru yn y Gwanwyn 2022.

Fel y bydd yr Aelodau'n sylweddoli, nid oeddwn i'n aelod o'r Pwyllgor Diben Arbennig, ac felly nid wyf mewn sefyllfa i wneud sylwadau ar ddylanwad y Datganiad Safbwynt ar y Cyd ar ei argymhellion. Serch hynny, nodaf fod Cadeirydd y Pwyllgor Diben Arbennig, yn ei ragair i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig, yn nodi fod "Cyhoeddiad gan bleidiau'r Cytundeb Cydweithredu ar 10 Mai 2022 hefyd wedi llywio trafodaethau'r Pwyllgor hwn, er mai ein penderfyniadau ni yw'r rhai y manylir arnynt yn yr adroddiad hwn."[2]

---

[1] Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, *Datganiad Safbwynt ar y Cyd ynghylch Diwygio'r Senedd,* 10 Mai 2022, https://www.llyw.cymru/ffordd-ymlaen-ar-gyfer-diwygior-senedd

[2] Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, *Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru*, Mai 2022, Rhagair y Cadeirydd, Tudalen 7, https://senedd.wales/media/5mta1oyk/cr-ld15130-e.pdf

**3) Ar y sail hon, pa ddull y byddwch yn ei fabwysiadu i ystyried argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor hwn, neu bwyllgorau eraill y Senedd, sy'n galw arnoch i gyflwyno gwelliannau i'r Bil.**

Byddai Llywodraeth Cymru yn sicr yn dymuno rhoi ystyriaeth i argymhellion y pwyllgorau wrth ystyried gwelliannau, a bydd yn agored i unrhyw farn, tystiolaeth ac argymhellion y bydd y Pwyllgorau'n eu derbyn neu'n eu gwneud yn ystod y broses graffu.

Fodd bynnag, rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n gwerthfawrogi efallai na fydd bob amser yn bosibl cyflwyno gwelliannau i weithredu argymhellion y pwyllgorau am amryw o resymau. Er enghraifft, bydd angen i'r llywodraeth ystyried goblygiadau cyfreithiol ac ymarferol argymhelliad wrth lunio ei hymateb.

Fel enghraifft, daeth Pwyllgor Busnes y Senedd i'r casgliad yn flaenorol yn ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2022 y dylai Llywodraeth Cymru ystyried newid teitlau deddfwriaethol "Llywydd" a "Dirprwy Lywydd" i ddarparu ar gyfer "Llywydd/ Speaker" a "Dirpwy Lywydd/ Deputy Speaker" yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Dywedodd y Pwyllgor hefyd na ddylid cynnwys darpariaeth o'r fath oni bai fod Llywodraeth Cymru yn gwbl hyderus ei bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[3]

Ysgrifennodd y Trefnydd yn ddiweddarach at y Pwyllgor Busnes ar 21 Mehefin 2023 i ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad na allai ddatgan y byddai'n gwbl hyderus y byddai newidiadau o'r fath o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O ganlyniad, nid yw'r Bil yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

I'r gwrthwyneb, mae'r Bil yn gweithredu nifer o gasgliadau eraill a wnaeth y Pwyllgor Busnes yn flaenorol, gan gynnwys rhoi hyblygrwydd i'r Senedd benodi Dirprwy Lywydd ychwanegol,[4] cynyddu'r terfyn deddfwriaethol ar nifer y Gweinidogion yng Nghymru, a rhoi'r gallu i wneud cynnydd pellach yn y terfyn deddfwriaethol hwn.[5]

**4) Pa ddull y byddwch yn ei fabwysiadu i ymgysylltu â phartneriaid y Cytundeb Cydweithio a phleidiau gwleidyddol eraill yn y Senedd yn ystod y broses graffu ddeddfwriaethol i (i) asesu a yw'r cynigion yn y Bil fel y'i cyflwynwyd yn parhau i fod ag uwchfwyafrif, ac (ii) asesu a allai opsiynau eraill a argymhellir gan bwyllgorau'r Senedd neu a gyflwynir fel gwelliannau gan Aelodau o'r Senedd gael uwchfwyafrif.**

Yn ystod gwaith datblygu'r Bil, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru yn rheolaidd â phartneriaid y Cytundeb Cydweithio. Siaradais innau ag Aelodau o bleidiau gwleidyddol eraill ynghylch datblygu'r ddeddfwriaeth. Rwy'n ddiolchgar i'r Aelodau

---

[3] Y Pwyllgor Busnes, *Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru,* Rhagfyr 2022, Casgliad 3, https://senedd.wales/media/e0vdos5w/cr-ld15530-e.pdf

[4] Y Pwyllgor Busnes, *Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru,* Rhagfyr 2022, Casgliad 2, https://senedd.wales/media/e0vdos5w/cr-ld15530-e.pdf

[5] Y Pwyllgor Busnes, *Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru,* Rhagfyr 2022, *Casgliad 1,* https://senedd.wales/media/e0vdos5w/cr-ld15530-e.pdf

am y ddeialog adeiladol hon ac rwy'n rhagweld y bydd yr ymgysylltiad hwn yn parhau wrth i'r Senedd graffu ar y ddeddfwriaeth.

Yn yr un modd, rwy'n rhagweld y bydd pob Aelod yn dymuno ystyried a fydd y dulliau amgen sy'n cael eu hystyried ar gyfer argymhellion gan Bwyllgorau'r Senedd, neu welliannau a gyflwynir gan Aelodau unigol, yn galluogi i'r Bil gael ei basio gan uwchfwyafrif.

## Cefnogaeth y cyhoedd i'r cynigion

**5) Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i asesu cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer y cynigion yn y Bil.**

Bydd yr Aelodau'n cofio imi ymateb yn flaenorol i nifer o gwestiynau ar 5 Hydref yn ymwneud â chefnogaeth y cyhoedd ar gyfer y Bil, gan gynnwys amlinellu bod ymrwymiad i ddiwygio'r Senedd yn rhan o faniffestos Llafur Cymru, Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn etholiadau'r Senedd yn 2021.

Wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth, roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi ystyried cyfoeth o wybodaeth am safbwyntiau'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch Diwygio'r Senedd, a fynegwyd mewn cyfres o ymgynghoriadau a gynhaliwyd dros yr ugain mlynedd diwethaf, drwy nifer o gomisiynau, paneli a phwyllgorau. Er enghraifft, mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi bod y rhan fwyaf o'r 1,830 o ymatebion i gwestiwn yn ymgynghoriad 2018 Comisiwn y Senedd, Creu Senedd i Gymru, o blaid cynyddu nifer yr Aelodau yn y Senedd.

**6) Pa baratoadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i weithio gyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r trefniadau etholiadol newydd y mae'n cynnig eu gweithredu ar gyfer 2026.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau, ac mae'n rhagweld gweithio, gydag amrywiaeth o bartneriaid i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r trefniadau etholiadol newydd. Er enghraifft, mae'r Comisiwn Etholiadol yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth a rhoi arweiniad mewn perthynas â newidiadau etholiadol fel corff annibynnol.

Mae'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig hefyd yn darparu ar gyfer sefydlu a gweithredu llwyfan gwybodaeth am etholiadau Cymru, a fyddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i etholwyr am etholiadau, gan gynnwys etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol.

Mae'n werth nodi hefyd, fel y dywedwyd yn ystod y sesiwn graffu, fod gan Gomisiwn y Senedd hefyd y pŵer i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r system bresennol neu unrhyw system sydd ar ddod ar gyfer ethol Aelodau o'r Senedd.

## Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

**7) Trosolwg o'r meysydd rhyngweithio a rhyngddibyniaeth rhwng Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).**

Nifer cyfyngedig o ymyriadau uniongyrchol sydd gan y ddau Fil.

Mae Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) wedi'i ddrafftio yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Er enghraifft, mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn ailenwi Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn "Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ac ati 2013" a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. O ganlyniad, mae Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn cyfeirio at Ddeddf 2013 a'r Comisiwn gyda'u henwau newydd. Pe na bai Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn cael Cydsyniad Brenhinol, yna byddai angen ystyried nifer o welliannau technegol sy'n gysylltiedig â Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Yn yr un modd, byddai gwelliannau technegol yn angenrheidiol petai oedi cyn pasio Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) hefyd yn nodi ei fod yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Roedd hyn er mwyn sicrhau nad oedd rhai costau ariannol yn cael eu cyfrif ddwywaith.

Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn gweithredu'n annibynnol ar Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Fodd bynnag, mae'n rhagweld y Bil olaf o'r ddau. Yn anad dim, mae'n gwneud darpariaeth i gynyddu'r nifer mwyaf o Gomisiynwyr Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru a ganiateir, o bump i naw. Mae'r cynnydd hwn yn rhagweld y cynnydd yn llwyth gwaith Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru mewn perthynas â gwaith adolygu ffiniau'r Senedd yn ogystal â'r llwyth gwaith a fydd yn deillio o drosglwyddo swyddogaethau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol drwy Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Ystyriwyd y ddau Fil ar wahân gan ddarparu ar gyfer cynnydd yn nifer y Comisiynwyr, ond byddai hyn wedi bod yn anymarferol. Ar ben hynny, dyma uchafswm yn hytrach nag isafswm nifer y Comisiynwyr, felly pe na bai Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn cael ei basio, ni fyddai angen penodi'r holl Gomisiynwyr ychwanegol. Pe na bai Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn cael ei basio, yna byddai angen ystyried cynnydd yn nifer y Comisiynwyr i gyfrif am y llwyth gwaith a fydd yn deillio o drosglwyddo swyddogaethau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol drwy Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).

Mae Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) hefyd yn darparu ar gyfer mesurau sy'n ategu ond nad ydynt yn rhan annatod o'r diwygiadau a gyflawnir gan Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Er enghraifft, mae'n cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith ar gyfer llwyfan gwybodaeth i bleidleiswyr ar-lein, gan ddarparu ar gyfer gwefan sy'n gallu dal gwybodaeth am ymgeiswyr a phleidleiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau'r prif gynghorau fan leiaf. Mae hefyd yn gwneud newidiadau deddfwriaethol sy'n berthnasol i etholiadau'r Senedd, fel anghymhwyso cynghorwyr tref a chymuned yng Nghymru rhag gwasanaethu fel Aelodau o'r Senedd a dileu'r "cyfnod gras" presennol

ar gyfer cynghorwyr prif gynghorau a etholwyd i'r Senedd ac Aelodau o'r Senedd a etholwyd yn Aelodau Seneddol.

Mae Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) hefyd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith â'r nod o wella amrywiaeth o fewn strwythurau democrataidd y Senedd a Llywodraeth Leol, ac i gynlluniau unigol gael eu creu a'u teilwra i ddarparu cymorth i unigolion sydd ag amrywiaeth o nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn cyd-fynd â'n hamcan cyffredinol wrth ddiwygio'r Senedd i sicrhau bod y Senedd yn cynrychioli'r bobl y mae yma i'w gwasanaethu, ac mae'r darpariaethau o fewn Bil Senedd Cymru sy'n darparu llwybr ar gyfer rhannu swyddi yn rhan bwysig o'r gyfres gyffredinol o ymyriadau sydd â'r nod o wneud swyddi etholedig yn fwy hygyrch i bawb.

8) **Eich barn am effaith bosibl cyflwyno tri Bil ym maes diwygio etholiadol un yn gyflym ar ôl y llall, ac a allai hyn beri risgiau i eglurder a hygyrchedd y gyfraith (er enghraifft, yn achos peidio â phasio un neu ragor o'r Biliau, neu o ganlyniad i gwmpas a graddfa'r newidiadau sydd i'w gweithredu).**

Datblygwyd y tri Bil â'r nod o fod yn gyson, ond ar yr un pryd mae pob un o'r diwygiadau hynny'n fewnol gydlynol. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Biliau wedi cael ei lywio gan gydweithio, tryloywder a dull gweithredu integredig rhwng tri Thîm y Bil o fewn Llywodraeth Cymru.

Rydym yn mabwysiadu dull gweithredu pragmatig o ymdrin â'r pecyn o ddiwygiadau gyda'r nod o sicrhau bod modd rhoi'r diwygiadau a ddarperir ar eu cyfer ar waith yn barod ar gyfer 2026. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd y Llywydd yn penderfynu, fel sy'n ofynnol gan adran 111A o Ddeddf Llywodraeth Cymru, y dylai'r materion sy'n cael sylw o fewn Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) fod yn ddarostyngedig i fwyafrif o ddau draean er mwyn pasio, gan adlewyrchu'r ffaith eu bod yn ymwneud â materion gwarchodedig o fewn ystyr yr adran honno. Byddai wedi bod yn anghymesur mynnu bod darpariaethau Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) hefyd yn ddarostyngedig i'r gofyniad hwn, gan eu bod yn mynd i'r afael â materion cymharol syml yn ymwneud â gweinyddu etholiadol.

Ar yr un pryd mae gennym uchelgais i gyfnerthu'r llyfr statud ar gyfer Cymru lle gallwn, i ddarparu fframwaith deddfwriaethol hygyrch a dwyieithog.

Rydym yn cymryd nifer o gamau i gydgrynhoi'r gyfraith etholiadol yng Nghymru ar gyfer etholiadau datganoledig, fel rhan o'n nod tymor hwy o foderneiddio cyfraith etholiadol.

Yn anad dim, mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, ("y Gorchymyn Cynnal Etholiadau") yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau i Senedd Cymru. Mae'n nodi'r ffordd i gynnal yr etholiad a'r ymgyrch etholiadol, gan gynnwys darpariaethau ar gyfer herio'r etholiad yn gyfreithiol.

Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau wedi cael ei adolygu a'i ddiwygio cyn pob etholiad i'r Senedd. Cafodd ei wneud yn wreiddiol a'i ddiwygio wedyn gan yr

Ysgrifennydd Gwladol, cyn i'r swyddogaeth o wneud y Gorchymyn gael ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Cymru 2017.

Byddwn yn ymgynghori ar Orchymyn Cynnal Etholiadau cyfunol a dwyieithog ac ail-wneud y gorchymyn hwn cyn Etholiadau'r Senedd yn 2026. Wrth ail-wneud y Gorchymyn, byddwn yn adlewyrchu'r newidiadau sy'n deillio o'r tri Bil, ar yr amod eu bod yn cael Cydsyniad Brenhinol, er mwyn sicrhau fframwaith unedig, hygyrch a dwyieithog yn y pen draw.

## Nifer y Dirprwy Lywyddion

**9) A yw'r dull a fabwysiedir yn y Bil yn peryglu creu hierarchaeth rhwng y Dirprwy Lywydd a etholir o dan 25(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac unrhyw Ddirprwy Lywydd a etholir o dan adran 25(1A) newydd sydd i'w mewnosod gan adran 4 o'r Bil.**

Nid yw'r Bil yn creu hierarchaeth rhwng y ddau Ddirprwy Lywydd. Ar wahân i amseriad a hyd apwyntiadau, byddai'r swyddogaethau deddfwriaethol, dyletswyddau, pwerau a gofynion eraill sydd wedi'u datgan ar hyn o bryd yn Neddf Llywodraeth Cymru ar gyfer y Dirprwy Lywydd hefyd yn berthnasol i unrhyw Ddirprwy Lywydd ychwanegol.

Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi, wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon, ystyriwyd amgylchiadau lle nad oedd dau Ddirprwy Lywydd yn cytuno ar sut i arfer swyddogaethau'r Llywydd, ac a ddylai deddfwriaeth gynnig ateb ar gyfer senario o'r fath (er enghraifft, drwy benodi un o'r Dirprwy Lywyddion i gael awdurdod mewn amgylchiadau o'r fath).

Ond, byddai hyn yn benderfyniad mympwyol ar hierarchaeth. Hefyd, nid oes unrhyw fecanwaith ar gyfer datrys amgylchiadau o'r fath wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth sy'n sail i benodi dirprwyon yn Seneddau eraill y DU. O'r herwydd, nid yw'r Bil yn creu hierarchaeth rhwng y ddau Ddirprwy Lywydd.

**10) A roddodd Llywodraeth Cymru unrhyw ystyriaeth i drefniadau mewn deddfwrfeydd eraill ar gyfer ethol Dirprwy Lywyddion ychwanegol. Er enghraifft, mae gan Senedd yr Alban yr hyblygrwydd i ethol un neu ragor o Ddirprwy Lywyddion, ac mae Tŷ'r Cyffredin yn darparu ar gyfer hierarchaeth o Ddirprwy Lefaryddion ac i sicrhau bod y garfan o Lefaryddion a Dirprwy Lefaryddion yn cynnwys o leiaf un dyn ac o leiaf un fenyw.**

Mae'r Bil yn gweithredu argymhelliad Pwyllgor Busnes y Senedd yn ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2022.

Roedd argymhelliad y Pwyllgor Busnes yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus lle cafodd y Pwyllgor amrywiaeth o dystiolaeth ar y mater hwn. Mynegodd rhai ymgyngoreion bryder ynghylch cynyddu nifer y Dirprwy Lywyddion- er enghraifft, dywedodd yr Athro Laura McAllister a Paul Silk nad oeddent yn credu bod angen Dirprwy Lywyddion ychwanegol. Roedd ymgyngoreion eraill yn gefnogol, ac yn ystyried ei bod yn bosibl

y byddai'r gofynion ar Lywydd a Dirprwy Lywydd y Senedd yn cynyddu'n sylweddol mewn Senedd o 96 o Aelodau yn y dyfodol.

Felly, argymhellodd y Pwyllgor Busnes:

> *"byddai'n rhesymol i gynnydd yn aelodaeth y Senedd gael ei ategu gan gynnydd yn y nifer mwyaf a ganiateir o Ddirprwy Lywyddion… o 1 i 2."*[6]

Wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth i roi'r argymhelliad hwn ar waith, rhoddodd Llywodraeth Cymru ystyriaeth i'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r broses o benodi dirprwyon mewn Seneddau eraill y DU, fel y nodir ym Memorandwm Esboniadol y Bil.[7] Fodd bynnag, ein prif fwriad oedd rhoi argymhelliad Pwyllgor Busnes y Senedd ar waith.

**11) A allai cael Dirprwy Lywydd ychwanegol gael effaith ar gydbwysedd gwleidyddol Senedd yn y dyfodol.**

Roedd adroddiad y Pwyllgor Busnes yn ystyried effaith bosibl Dirprwy Lywydd ychwanegol ar gydbwysedd gwleidyddol y Senedd, ac yn nodi cyfyngiadau penodol ar gymhwysedd ymgeiswyr ar gyfer etholiad i fod yn Ddirprwy Lywydd ychwanegol. Ymdrinnir â'r rhain drwy fewnosod isadran newydd, (7A), yn adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Maint Llywodraeth Cymru

**12) Beth yw'r sail resymegol dros ddarparu yn adran newydd 51(4) Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i mewnosodir gan adran 5 o'r Bil) na chaniateir defnyddio'r pŵer i gynyddu'r terfyn ar nifer Gweinidogion Cymru o dan adran 51(3) newydd i leihau uchafswm Gweinidogion Cymru.**

Mae'r pŵer yn darparu ar gyfer cynyddu'r terfyn uchaf ar Weinidogion Cymru. O ganlyniad, yn ymarferol, byddai Prif Weinidog yn rhydd i ddewis peidio â phenodi i'r uchafswm hwnnw, heb fod angen deddfwriaeth bellach.

Serch hynny, byddwn yn croesawu barn yr Aelodau ar y mater hwn. Efallai y bydd yr Aelodau'n nodi bod cynnwys y pŵer hwn yn dilyn argymhelliad adroddiad Pwyllgor Busnes y Senedd ym mis Rhagfyr 2022, a ddaeth i'r casgliad, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus:

> *"… byddai'n rhesymol i'r ddeddfwriaeth gynnwys mecanwaith a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i gynnig cynyddu'r terfyn hwn ymhellach i uchafswm o 19 drwy is-ddeddfwriaeth, er mwyn diogelu'r ddeddfwriaeth ar*

---

[6] Y Pwyllgor Busnes, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Casgliad 2, https://senedd.wales/media/e0vdos5w/cr-ld15530-e.pdf

[7] Er enghraifft, Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), Paragraff 97, pri-ld16037-em-e.pdf (senedd.wales).

*gyfer datganoli rhagor o bwerau yn y dyfodol, neu amgylchiadau eraill lle'r ystyrir bod cynnydd yn deilwng. Dylai cynnydd o'r fath fod yn destun pleidlais gadarnhaol (mwyafrif) yn y Senedd."*[8]

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi:

*"Mae'r rhan fwyaf o'n haelodau'n credu y dylid pasio pleidlais o'r fath yn seiliedig ar fwyafrif syml, ond dywedodd Darren Millar AS y dylai fod angen cefnogaeth dwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio. Dylai unrhyw gynnydd arfaethedig, ar ôl i'r Senedd gytuno arno, fod yn barhaol."*[9]

**13) Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweld y defnydd o'r pŵer yn gweithio'n ymarferol pe bai Prif Weinidog am godi uchafswm Gweinidogion Cymru, er enghraifft i ddarparu ar gyfer datganoli pwerau newydd i'r Senedd, i ymateb i ddigwyddiadau, neu i adlewyrchu trefniadau clymblaid.**

Bwriad y pŵer dirprwyedig yn adran 5 yw cynnwys elfen o ddiogelu at y dyfodol, gan alluogi Gweinidogion Cymru i gynyddu ymhellach, drwy reoliadau, y terfyn uchaf ar nifer y Gweinidogion sy'n gallu dal swydd ar unrhyw adeg (hyd at uchafswm o 19 o Weinidogion, yn ychwanegol at y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol).

Bydd y pŵer yn ddarostyngedig i weithdrefnau a phrosesau arferol Llywodraeth Cymru a'r Senedd ar gyfer datblygu a gwneud Offeryn Statudol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Er enghraifft, mae Rheol Sefydlog 27.7 yn nodi na ellir cyflwyno cynnig ar benderfyniad y Senedd i gymeradwyo Offeryn Statudol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol nes bydd y pwyllgor perthnasol wedi adrodd arno neu nes bydd 20 diwrnod wedi mynd heibio.

Fel y nodir yn y Datganiad o Fwriad y Polisi, nid oes disgwyl i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn ar unwaith i gynyddu'r uchafswm presennol. Byddai angen i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gyfiawnhau pam roedd amgylchiadau'n galw am gynyddu nifer Gweinidogion Cymru y tu hwnt i 17.

## Cynyddu amlder etholiadau'r Senedd

**14) Rhowch ragor o wybodaeth am y sail dystiolaeth ar gyfer eich penderfyniad i gynnwys darpariaeth yn y Bil i gynyddu amlder etholiadau'r Senedd o bob pum mlynedd i bob pedair blynedd.**

Yn wreiddiol, roedd tymhorau'r Senedd yn para pedair blynedd. Daeth y newid i bum mlynedd i rym drwy ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU mewn ymateb i Ddeddf Seneddau Tymor Penodol 2011 er mwyn atal gwrthdaro bob 20 mlynedd.

---

[8] Y Pwyllgor Busnes, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Casgliad 1, https://senedd.wales/media/e0vdos5w/cr-ld15530-e.pdf

[9] Y Pwyllgor Busnes, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Paragraff 16. https://senedd.wales/media/e0vdos5w/cr-ld15530-e.pdf

Yn dilyn diddymu’r Ddeddf Seneddau Tymor Penodol y llynedd, mae’r sefyllfa mewn perthynas ag etholiadau Senedd y DU yr un fath, i bob pwrpas, ag yr oedd cyn 2011. Ar y sail bod tymhorau’r Senedd wedi cael eu hymestyn yn benodol i osgoi gwrthdaro ag etholiadau’r DU, mae’n rhesymegol ystyried y byddai amserlenni etholiadau’r Senedd hefyd yn dychwelyd i’r sefyllfa cyn 2011.

Yn y drafodaeth hon, rhoddodd Llywodraeth Cymru ystyriaeth benodol i ffactorau adnewyddiad democrataidd, blinder pleidleiswyr a rhoi digon o amser i weinyddiaeth weithredu ei hagenda.

Daeth Llywodraeth Cymru i’r casgliad mai tymhorau pedair blynedd sy’n cydbwyso’r ffactorau hyn orau. Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ddiweddar gan yr Athro Alan Renwick[10] yn nodi, er bod tymor pum mlynedd yn dderbyniol, mai tymor pedair blynedd sy'n debygol o roi gwell cydbwysedd rhwng yr angen i lywodraeth allu cynllunio ymlaen llaw a'r angen i bleidleiswyr gael dweud eu dweud.

**15) Amlinellwch unrhyw Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon, yn enwedig unrhyw ystyriaeth a allai'r cynnig gael effaith wahaniaethol ar sail oedran ynghylch a all pobl fod yn fwy neu'n llai tebygol o sefyll etholiad i'r Senedd o ganlyniad i newid yn amlder etholiadau'r Senedd.**

Roedd Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru yn cynnwys Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. Nododd yr Asesiad Effaith nad ystyriwyd bod y newid i hyd tymhorau yn cael effaith wahaniaethol ar bobl â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys oedran), fel y disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Bydd gostyngiad yn yr amser rhwng etholiadau’r Senedd yn rhoi cyfleoedd amlach i bobl sefyll etholiad i’r Senedd yn gyffredinol.

**16) Pa drafodaethau neu ymgysylltiad sydd wedi'u cynnal hyd yn hyn neu a gynlluniwyd gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol ynghylch effaith bosibl cynyddu amlder etholiadau'r Senedd. Dylai hyn gynnwys trafodaethau neu ymgysylltiad ynghylch (i) effaith gweinyddu etholiadau'r Senedd yn amlach, (ii) effaith pob pumed etholiad Senedd sy'n cyd-daro â phob pedwerydd etholiad llywodraeth leol (heb newid yn amlder etholiadau lleol), ac (iii) a ddylid newid amlder etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.**

Bu ymgysylltu rheolaidd rhwng Swyddogion Llywodraeth Cymru, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, a chynrychiolwyr llywodraeth leol gan gynnwys Swyddogion Canlyniadau ar amrywiaeth o faterion sy’n gysylltiedig â’r Bil.

Mae hynny wedi cynnwys ystyried ymarferoldeb rhoi’r newidiadau ar waith, ac effaith ariannol y newid. Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd wedi’i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol yn seiliedig ar gylch etholiadol 4 blynedd o 2026 ymlaen,

[10] Alan Renwick, RBC(6)- 04-23, Papur 1 - Tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Alan Renwick.pdf (senedd.wales)

ond nid oes asesiad cynhwysfawr o'r costau/arbedion sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r etholiadau wedi'i nodi ar hyn o bryd, gan nad yw nifer o newidynnau angenrheidiol – fel paru etholaethau – eto'n hysbys.

Nid oes unrhyw gynlluniau i newid amlder etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, a disgwylir (oni bai fod newidiadau annisgwyl i'r amserlenni) mai'r tro nesaf y bydd etholiad y Senedd yn cyd-daro ag etholiad llywodraeth leol yw 2042, sy'n golygu bod cyfnod amser sylweddol i benderfynu ar yr ymateb mwyaf priodol

**Ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ac Aelodau fod yn gofrestredig i bleidleisio mewn cyfeiriad yng Nghymru**

17) **A allech roi mwy o wybodaeth am natur yr "heriau cyfreithiol" posibl y gwnaethoch gyfeirio atynt yn ystod y sesiwn dystiolaeth.**

Mae'r ffactorau a ystyrir pan fydd llys yn penderfynu a yw person yn "preswylio" mewn ardal (at ddibenion cofrestru) wedi'u nodi yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Mae'r ffactorau hyn wedi bod ar y llyfr statud ers cryn amser.

Er mwyn cael ei gofrestru mewn cyfeiriad ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol, mae'n rhaid i Swyddog Cofrestru Etholiadol fod yn fodlon bod yr unigolyn yn byw yn y cyfeiriad hwnnw. Felly, mae gofyniad cofrestru - drwy ddiffiniad - yn rhoi gofyniad preswyliad ar waith.

Mae gofyniad i gofrestru i bleidleisio yn sicrhau bod natur a chwmpas y gofyniad yn glir i ymgeiswyr posibl, i aelodau, ac yn y pen draw i unrhyw Lys y gelwir arno i ddehongli'r ddarpariaeth. Mae unigolyn naill ai ar gofrestr o'r fath, neu ddim. Mae sicrhau bod y darpariaethau hyn yn ddiamwys yn lleihau'r risg iddynt gael eu camddehongli gan ymgeiswyr, Aelodau ac felly mae'n lliniaru'r risg o her gyfreithiol.

18) **Wrth wneud eich penderfyniadau ar y darpariaethau yn y Bil, pa ystyriaeth y gwnaethoch ei rhoi i adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n darparu mai dim ond os oes ganddo gysylltiad ag ardal yr awdurdod lleol y caiff person fod yn gymwys i'w ethol i wasanaethu ar awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr, ac y caniateir sefydlu cysylltiad o'r fath mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys, ymhlith eraill: cofrestriad etholiadol, perchnogaeth tir neu eiddo, cyflogaeth neu breswyliad.**

Rhoddwyd ystyriaeth i ystod o opsiynau ar gyfer rhoi gofyniad preswyliad ar waith, gan gynnwys datblygu model pwrpasol, a'r darpariaethau cymhwyso sy'n bodoli ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol.

Mae'n briodol i ymgeiswyr sy'n ceisio dod yn Aelodau o'r Senedd fod â budd sylweddol a phendant yn nemocratiaeth Cymru. Byddai mynnu eu bod yn cofrestru i bleidleisio – ac felly'n breswyl - yng Nghymru yn helpu i sicrhau cyswllt o'r fath.

Gellir dadlau bod modd dangos budd "sylweddol" a "phendant" drwy ffyrdd eraill ar wahân i fod yn breswyl – er enghraifft cyflogaeth. Fodd bynnag, mae hefyd yn briodol, er mwyn i unigolyn gymryd rhan yn etholiad y Senedd fel ymgeisydd, y dylai fod yn gymwys i gymryd rhan yn yr etholiad fel etholwr. Nid yw cyflogaeth yng

Nghymru (er enghraifft) yn rhoi hawl i rywun bleidleisio yn etholiad y Senedd. Yn y pen draw, mae gofyniad i gofrestru yn gosod safon glir a gwrthrychol ar gyfer asesu a yw rhywun yn breswyl ai peidio.

**19) A yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried a allai diffyg 'cyfnod gras' neu fecanwaith arall i alluogi ymgeisydd ar restr plaid i ailsefydlu ei breswyliad o fewn cyfnod rhesymol pe bai sedd wag yn codi rhwng etholiadau cyffredinol arferol y byddai, fel arall, yn gymwys i'w llenwi yn gallu darbwyllo pobl i beidio â rhoi ei enw i'w ddewis neu rhag cytuno i gael ei enwebu pe bai'n cael ei ddewis yn is i lawr ar restrau'r pleidiau.**

Byddai unigolyn na chafodd ei ethol o restr plaid mewn etholiad cyffredinol, ac y galwyd arno yn ddiweddarach i lenwi swydd wag, yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd os nad oedd yr unigolyn hwnnw bellach wedi cofrestru i bleidleisio mewn cyfeiriad yng Nghymru.

Byddai unigolyn o'r fath, fodd bynnag, wedi gwneud y penderfyniad hwnnw i dynnu ei hun oddi ar y gofrestr gan wybod y byddai gwneud hynny i bob pwrpas yn ei atal rhag llenwi unrhyw swydd wag. Oni bai fod unigolyn eisoes yn bwriadu symud o Gymru adeg ymgeisio, nid oes rheswm pam y byddai gofyniad o'r fath yn cymell rhywun i beidio â cheisio cael ei enwebu fel ymgeisydd.

Er mwyn i unigolyn gael ei "ddileu" o gofrestr etholiadol heb gynnal adolygiad (a fyddai'n golygu bod yn rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol geisio cysylltu â'r etholwr dan sylw), mae'n rhaid bodloni cyfres benodol iawn o feini prawf.[11] Mae'r rhain yn cynnwys - er enghraifft - y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cael gwybod bod yr etholwr wedi gwneud cais i gael ei gofrestru yn rhywle arall, cael gwybod am farwolaeth yr etholwr, a derbyn gwybodaeth gan o leiaf ddwy ffynhonnell sy'n cefnogi penderfyniad nad oes gan y person hawl i gael ei gofrestru mwyach. Felly, mae'n annhebygol y byddai etholwr yn cael ei dynnu oddi ar gofrestr heb iddo sylweddoli.

Ar ben hynny, gallai unrhyw "gyfnod gras" arwain at ansicrwydd o fewn y system, oherwydd efallai na fyddai aelod sydd heb gofrestru yn gallu sicrhau preswyliad o fewn y cyfnod hwnnw ac felly gallai arwain at swydd wag arall.

**20) Yn niffyg ymgynghoriad cyhoeddus cyn cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil, pa drafodaethau neu ymgysylltiad y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgymryd â hwy (ac â phwy) mewn perthynas â'r gofyniad hwn, sut y byddai'n gweithredu'n ymarferol, ac a allai arwain at ganlyniadau anfwriadol.**

Mae'r gofyniad preswyliad – sy'n sail i ran o'r meini prawf sydd eu hangen i gofrestru i bleidleisio – eisoes wedi hen ennill ei blwyf mewn cyfraith etholiadol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gyda Swyddogion

---

[11] Y Comisiwn Etholiadol, *Gwneud dileadau oddi ar y gofrestr heb adolygiad,* Hydref 2023, https://www.electoralcommission.org.uk/cy/cynnal-cofrestru-etholiadol-cymru/rheoli-diwygiadau-adolygiadau-gwrthwynebiadau-a-dileadau-drwy-gydol-y-flwyddyn/gwneud-dileadau-oddi-ar-y-gofrestr-heb-adolygiad

Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol ynghylch sut gallai gofyniad o'r fath fod yn rhan o'r broses enwebu.

Bydd manylion ynghylch sut y bydd cofrestru'n cael ei roi ar waith yng nghyswllt ymgeisyddiaeth adeg enwebu yn cael eu nodi yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid ynghylch gweithredu'r gofyniad hwn drwy gydol proses y Bil ac ar ôl ei gyflwyno.

**<u>Y system etholiadol</u>**

**21) Y sail resymegol dros leihau uchafswm hyd rhestrau ymgeiswyr y pleidiau o 12 ar hyn o bryd (ar gyfer 4 sedd ym mhob rhanbarth) i 8 (ar gyfer 6 sedd ym mhob etholaeth newydd), a pha asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith bosibl ar y gallu i lenwi seddi gwag sy'n codi rhwng etholiadau cyffredinol arferol, yn enwedig o ystyried y gofyniad preswyliad newydd arfaethedig.**

Er bod y system ranbarthol bresennol yn caniatáu i 12 ymgeisydd gael eu henwebu ar gyfer pedair sedd, nid yw'n wir fod pleidiau'n llenwi'r rhestrau hynny – er enghraifft, yn etholiadau rhanbarthol diweddaraf y Senedd, nid oedd unrhyw blaid wedi cyflwyno mwy na 10 ymgeisydd mewn unrhyw ranbarth, ac roedd y rhan fwyaf wedi cyflwyno wyth neu lai.

Hefyd, mae'r system bresennol yn caniatáu i ymgeisydd gael ei enwebu ar gyfer plaid mewn etholaeth, ac ar restr ranbarthol y blaid honno (ar gyfer y rhanbarth lle mae'r etholaeth honno). Os bydd yr ymgeisydd hwnnw'n cael ei ethol yn yr etholiad etholaethol, bydd wedyn yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr ranbarthol. Gan nad yw'r senario yma'n bosibl o dan y system newydd, nid oes angen i'r system gynnwys rhestrau hirach fel mesur gwrthbwyso.

Fodd bynnag, mae cyfradd y swyddi gwag sydd wedi digwydd mewn perthynas â seddi'r Senedd hyd yma yn isel. Rhwng 1999 a 2021, roedd 14 o swyddi gwag – 2 swydd wag ar gyfartaledd bob 3 blynedd. Llenwyd pob un o'r swyddi gwag hynny, gan gynnwys y rhai mewn perthynas â seddi ar y rhestr ranbarthol.

Byddai cymhwyso'r ffactor hwnnw i Senedd sydd â thymor o bedair blynedd a 96 aelod yn awgrymu y disgwylir rhwng 4 a 5 o swyddi gwag dros dymor. Gall pob plaid gyflwyno hyd at 8 ymgeisydd ar restr etholaeth, sy'n rhoi lefel sylweddol o wytnwch o ran llenwi swyddi gwag.

**22) Pam nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth ddatganedig y bydd enwau ymgeiswyr ar restrau pleidiau yn cael eu cynnwys ar bapurau pleidleisio (yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Diben Arbennig), ac a roddwyd unrhyw ystyriaeth i ddiwygio'r Bil yn hyn o beth.**

Ar hyn o bryd nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi pa wybodaeth y dylid ei rhoi ar bapurau pleidleisio. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn dilyn y cynsail hwnnw.

Bydd rheolau sy'n nodi pa wybodaeth y mae angen ei chynnwys ar y Papur Pleidleisio – a dyluniad y Papur Pleidleisio ei hun – yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth, fel mewn etholiadau blaenorol. Felly, nid ystyrir bod angen darparu ar gyfer hyn ar wyneb y Bil.

Ein bwriad yw cadw elfen y system bresennol, lle bydd y rhestr o ymgeiswyr yn cael ei chyflwyno i'r etholwyr ar y papur pleidleisio – yn y drefn y byddant yn llenwi'r seddi a enillir gan y blaid honno – sy'n caniatáu i bleidleiswyr wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.

**Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

**23) A fydd angen penodi comisiynwyr ychwanegol i alluogi Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i gynnal ei adolygiad 'paru' o etholaethau'r Senedd cyn etholiad 2026.**

Mater i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru fydd penderfynu ar ei anghenion ar ôl ystyried ei lwyth gwaith yn ei gyfanrwydd. Mae trafodaethau cychwynnol gydag ysgrifenyddiaeth bresennol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn awgrymu y byddai natur baru gymharol syml adolygiad 2026 – ynddi'i hun – yn golygu y gallai'r Comisiwn o bosibl gynnal yr adolygiad gyda'r nifer bresennol o Gomisiynwyr. Fodd bynnag, bydd llwyth gwaith Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru hefyd yn cynnwys y swyddogaethau ychwanegol a roddir gan Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a bydd angen i'r Comisiwn ystyried y rhain wrth gynllunio busnes.

O ganlyniad, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cynnydd yn nifer mwyaf y Comisiynwyr i naw, sy'n adlewyrchu'r cynnydd a ragwelir yn llwyth gwaith y Comisiwn yn y tymor hwy, a fydd hefyd, yn ogystal â'r angen am adolygiadau llawn o ffiniau'r Senedd, yn deillio o drosglwyddo swyddogaethau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol a sefydlu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol, drwy Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).

Fodd bynnag, nifer mwyaf o Gomisiynwyr yw hwn, ac nid targed. Bydd unrhyw gynnydd yn nifer y Comisiynwyr yn amodol ar ofyniad, ynghyd â gweithdrefn penodiadau cyhoeddus gadarn.

Mae'r ffigurau a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig ar amcangyfrif o bedwar Comisiynydd ychwanegol o 2024/25.

**24) A allech amlinellu'r broses benodi a fydd yn gymwys i gomisiynwyr Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, gan gynnwys a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried (a/neu drafod â'r Senedd) a ddylai'r broses ar gyfer penodi Cadeirydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gynnwys gwrandawiad cyn penodi gydag un o bwyllgorau'r Senedd.**

Penodir Comisiynwyr (gan gynnwys Cadeirydd) Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru drwy broses penodiadau cyhoeddus drwyadl sy'n dilyn y Cod Ymarfer ar

gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Bydd hyn yn parhau ar ôl ail-bwrpasu Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru a throsglwyddo’r swyddogaethau sy’n ymwneud ag adolygiadau o Ffiniau’r Senedd.

Mae’r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn rhoi sicrwydd annibynnol fod penodiadau cyhoeddus yn cael eu gwneud yn unol â’r Cod.

**<u>Ffiniau ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026</u>**

**25) A fydd y broses a amlinellir yn Atodlen 1 i’r Bil yn cynnig cyfleoedd digonol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid sydd â diddordeb gymryd rhan yn y broses adolygu ffiniau o ystyried y cyfnodau ymgynghori wedi’u cwtogi y mae’r Bil yn darparu ar eu cyfer.**

Mae’r amserlen ar gyfer adolygiad 2026 fel y nodir yn y ddeddfwriaeth yn cynnwys dau gyfnod ymgynghori o bedair wythnos.

Mae hwn yn ymgynghoriad mwy cyfyngedig o’i gymharu â thri chyfnod o wyth, chwech a phedair wythnos yn y drefn honno ar gyfer yr adolygiad cyn etholiad 2030, a’r etholiadau dilynol.

O ystyried cwmpas cymharol gyfyngedig yr adolygiad cyn etholiad 2026 – gan nad yw’r Comisiwn ond yn gwneud dewisiadau paru rhwng etholaethau presennol Senedd y DU yn hytrach na llunio rhai cwbl newydd – ystyrir bod hyn yn ddigonol i alluogi’r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill i ymgysylltu â’r broses.

**26) Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y gwahaniaeth rhwng etholfraint y DU (y mae ffiniau Senedd y DU yn seiliedig arni) a’r etholfreintiau llywodraeth leol (y cynhelir etholiadau'r Senedd arnynt) ar gydraddoldeb neu gynrychiolaeth fel arall ar draws yr 16 etholaeth wedi’u paru ar gyfer 2026.**

Bydd 32 etholaeth Senedd y DU eisoes o fewn 95%-105% o gwota etholiadol Senedd y DU o ganlyniad i’r rheolau ar gyfer yr adolygiad o ffiniau Senedd y DU yn 2023 (ac eithrio Ynys Môn).

Mae’n anochel y bydd unrhyw ddewis paru ar gyfer adolygiad 2026 yn agos at gwota etholiadol y DU, ac felly, yn ymarferol bydd etholaethau’r Senedd ar gyfer 2026 yn debyg iawn o ran nifer yr etholwyr (yr eithriad i hyn fydd y pâr etholaethol sy’n cynnwys Ynys Môn).

Bydd yr adolygiad o ffiniau a gynhelir cyn etholiad y Senedd yn 2030 yn seiliedig ar etholfraint y Senedd (ar ddyddiad mwy diweddar), ac felly nid yw’n bosibl nodi’r union wahaniaeth rhwng y ddwy etholfraint ac felly’r effaith ar gydraddoldeb o ran cynrychiolaeth.

Fodd bynnag, hyd yn oed os oes gwahaniaethau ym maint etholaethau’r Senedd ar gyfer 2026- o ganlyniad i’r gwahanol etholfreintiau ar gyfer Senedd Cymru a Senedd y DU- maent yn debygol o fod yn llawer llai anghyson na’r rhai ar gyfer 40 etholaeth bresennol y Senedd, gan fod y ffiniau hyn i bob pwrpas wedi dod yn rhai sefydlog.

**27) A fydd Llywodraeth Cymru yn darparu diffiniad o "cyffiniol" i gefnogi ystyriaethau paru Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.**

Bwriad y polisi ar gyfer adolygiad 2026 yw bod yn rhaid i'r etholaethau seneddol i'w paru rannu ffin tir, ac eithrio Ynys Môn, sydd, wrth gwrs, heb ffin tir.

Ar gyfer etholaeth seneddol Ynys Môn, y bwriad yw ei pharu ag etholaeth gyfagos. Defnyddir y gair cyffiniol gyda'r nod o roi bwriad y polisi hwnnw ar waith.

Mae'r rheolau y darperir ar eu cyfer yn Atodlen 1 y Bil yn gadael y gwaith paru ar gyfer pob un o'r 16 etholaeth i ddisgresiwn Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Pe bai'r llywodraeth wedi bwriadu i Ynys Môn gael ei pharu ag etholaeth benodol yn unig, byddai'r ddeddfwriaeth wedi darparu'n benodol ar gyfer hynny.

Wrth gwrs, mater i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru fel corff annibynnol fydd penderfynu ar ystyr a defnydd y rheolau sy'n berthnasol i adolygiad 2026.

**28) A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu rhagor o ddiffiniad neu ganllawiau y dylai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ystyried eu bod yn "cwlwm lleol" wrth gynnal ei adolygiad paru. Er enghraifft, mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu y byddai'r Gymraeg yn gwlwm lleol, ond nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y Bil**

Mater i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru fel corff annibynnol fydd penderfynu ar ystyr a defnydd y rheolau sy'n berthnasol i adolygiadau'r Senedd.

Ni fwriedir i'r ddeddfwriaeth ragnodi rhagor o fanylion am ystyr y 'rheolau' gan gynnwys yr hyn y dylai'r Comisiwn ei ystyried fel "cwlwm lleol" cyn yr adolygiad gan y byddai hyn yn cyfyngu ar ddisgresiwn Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi – fel enghraifft yn unig - fod y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol yn ystyried bod y Gymraeg yn gwlwm lleol fel rhan o adolygiad Llywodraeth Leol blaenorol.

Ni fwriedir i'r enghraifft honno ddangos y byddai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o reidrwydd yn mabwysiadu'r un dull gweithredu mewn perthynas ag adolygiad o ffiniau'r Senedd.

## Adolygiadau ffiniau yn y dyfodol

**29) Y sail resymegol dros osod y cwota etholiadol ar gyfer adolygiadau parhaus o ffiniau'r Senedd ar ±10 y cant.**

Ystyrir bod amrywiant o 10% yn briodol gan ei fod yn rhoi cydbwysedd a hyblygrwydd i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ystyried ffactorau ar wahân i'r cwota, gan gynnal hefyd lefel o gynrychiolaeth gyfartal rhwng etholwyr mewn gwahanol etholaethau.

**30) A oes unrhyw densiwn rhwng y gofyniad yn adran 49C(1) newydd o Ddeddf 2013 (fel y'i mewnosodir gan Atodlen 2 i'r Bil) i gydraddoli maint etholaethau'r Senedd, a'r gofynion yn adran 49C(2)(b) newydd i leihau maint y newid i etholaethau'r Senedd a rhoi sylw i anghyfleustra gwneud newidiadau.**

Mae'r gofyniad i'r Comisiwn sicrhau bod gan bob etholaeth etholwyr o fewn +/- 10% o'r cwota etholiadol yn absoliwt. Wrth ystyried anhwylustod newidiadau i'r ffiniau presennol, mae'n rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru bob amser gydymffurfio â'r amrywiant a ganiateir.

Yr hyn mae amrywiant o +/- 10% yn ei ganiatáu yw mwy o hyblygrwydd i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ystyried ffiniau presennol y Senedd, gan barhau i gydymffurfio â'r amrywiant a ganiateir, o'i gymharu ag amrywiant o +/- 5%, gan gynnal hefyd lefel o gynrychiolaeth gyfartal rhwng etholwyr mewn gwahanol etholaethau.

**31) A allai tensiwn o'r fath fod yn arbennig o ddifrifol yn yr adolygiad 'llawn' cyntaf o dan Ran 3A newydd o Ddeddf 2013 ar y sail y bydd yr adolygiad a gynhelir rhwng 2025 a 2028 yn seiliedig ar etholfraint wahanol i adolygiad Senedd y DU yn 2023, a bydd angen ystyried newidiadau a allai fod yn arwyddocaol i'r etholaeth sy'n cynnwys Ynys Môn**

Mae'n anochel y bydd unrhyw ddewis paru ar gyfer adolygiad 2026 yn agos at gwota etholiadol y DU (o ystyried rheolau'r adolygiad o ffiniau Senedd y DU 2023), ac felly, yn ymarferol bydd etholaethau'r Senedd ar gyfer 2026 yn debyg iawn o ran nifer yr etholwyr (ac eithrio'r pâr etholaethol sy'n cynnwys Ynys Môn).

O ran Ynys Môn, nid ydym yn gwybod gyda pha etholaeth Seneddol y DU y bydd Ynys Môn yn cael ei pharu i greu etholaeth newydd yn y Senedd cyn etholiad y Senedd yn 2026. Bydd yr adolygiad cyn etholiad 2030 yn seiliedig ar etholfraint y Senedd (ar ddyddiad mwy diweddar), ac felly nid yw'n bosibl nodi union raddfa'r newid sy'n angenrheidiol i sicrhau bod etholaeth y Senedd sy'n cynnwys Ynys Môn o fewn yr amrywiant derbyniol o'r cwota etholiadol.

Fel rhan o'r adolygiad dilynol a fydd yn cael ei gynnal cyn etholiad 2030, mae'r amrywiant o +/-10% o'r cwota etholiadol yn caniatáu hyblygrwydd i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ystyried ffactorau eraill, fel y gofyniad i geisio lleihau faint o newid a wneir i etholaethau'r Senedd, gan gynnwys Ynys Môn. Mae rheoli'r math yma o densiynau'n nodweddiadol mewn adolygiadau ffiniau.

**Adolygiad o’r darpariaethau**

**32) Y sail resymegol y tu ôl i'r gofyniad yn adran 19 i'r Llywydd gynnig sefydlu un o bwyllgorau'r Senedd i gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, yn hytrach na gosod gofyniad ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r fath.**

Er mai Bil Llywodraeth Cymru yw hwn, ei bwrpas craidd yw rhoi effaith ddeddfwriaethol i argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio’r Senedd, y cymeradwywyd ei argymhellion gan y Senedd.

Felly, er bod gosod dyletswydd adrodd ar Weinidogion Cymru wedi cael ei ystyried, penderfynodd y llywodraeth ei bod yn fwy priodol i'r Senedd ymgymryd ag unrhyw adolygiad o weithrediad ac effaith y Ddeddf.

Mae’r Bil yn cynnig llwybr y gallai’r Senedd ddewis ei ddefnyddio i sefydlu pwyllgor i ymgymryd â’r gwaith hwn. Byddai pwyllgor, ar ôl ei sefydlu a’i gyfansoddi, fel arfer yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Senedd, felly byddai’r dull gweithredu’n darparu ar gyfer ystyriaeth drawsbleidiol o weithrediad ac effaith y Ddeddf. Fodd bynnag, nid yw’r Senedd wedi’i rhwymo i’r dull gweithredu hwn a gallai ddewis dull arall pe bai’n dymuno.

**33) A yw'n briodol i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol mewn deddfwriaeth i'r Llywydd gynnig sefydlu un o bwyllgorau’r Senedd i gynnal ymchwiliad i “ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru”, ac i Lywodraeth Cymru gynnig yn y Memorandwm Esboniadol yr hyn y gallai ymchwiliad o'r fath ei ystyried.**

Mae rôl Llywydd, yn wahanol i’r Senedd ei hun, yn cynnwys amrywiol swyddogaethau a osodir arno mewn deddfwriaeth.

Ystyrir mai mynnu bod y Llywydd yn gwneud cynnig yw'r ffordd fwyaf priodol o sicrhau bod y materion pwysig hyn yn cael eu hystyried gan y Senedd nesaf os yw’n dymuno, ond mater i’r Senedd nesaf ei hun yw penderfynu a ddylid cynnal yr ystyriaeth honno a sut i wneud hynny. Mae’r dull hwn wedi’i fabwysiadu i osgoi deddfwriaeth sy’n rhwymo’r Senedd ei hun.

Rydym wedi ystyried y gallai’r pwyllgor hefyd ddymuno ystyried i ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi y gall hyn gynnwys:

- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o lywodraeth ddatganoledig Cymru ac etholiadau;
- Asesiad o’r niferoedd sy’n pleidleisio ac archwiliad o’r cynigion ar gyfer sut y gellid annog mwy o bobl i bleidleisio;
- Cymorth i aelodau a phleidiau i gyflawni eu rolau yn y Senedd; a

- Y seilwaith sydd ar waith i gefnogi democratiaeth gref yng Nghymru.

Fodd bynnag, enghreifftiau yn unig a nodir yn y Memorandwm Esboniadol ac nid ydynt yn rhwymo’r pwyllgor mewn unrhyw ffordd i ystyried y materion penodol hynny. Os caiff ei sefydlu, gallai Pwyllgor y Senedd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â diwygio’r Senedd y mae’n ystyried sy’n berthnasol.

Mae’r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i’r Llywydd gyflwyno cynnig i sefydlu’r Pwyllgor – bydd y Senedd yn cynnal ymreolaeth, a mater i’r Senedd, yn ddarostyngedig i’r weithdrefn arferol fydd penderfynu a ddylid cefnogi’r cynnig hwnnw ai peidio.

**Darpariaethau amrywiaeth**

**34) A allech amlinellu'r sail resymegol dros fwriad Llywodraeth Cymru i ddyroddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol ar strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant, yn hytrach na chynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â'r materion hyn yn y Bil.**

Rydyn ni’n credu ein bod yn gallu cyflawni’r bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor Diben Arbennig heb fod angen darpariaeth benodol yn y Bil. Gallwn gyflawni nod yr argymhelliad yn effeithiol drwy gynhyrchu canllawiau sy'n rhoi’r holl adnoddau sydd eu hangen ar bleidiau gwleidyddol i ddatblygu Strategaethau Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Byddwn yn gweithio gyda’n partneriaid yn y maes hwn i ddatblygu canllawiau a fydd yn cynnwys syniadau am weithgareddau a chamau ymarferol y gall pleidiau eu cymryd i ddenu a chadw ymgeiswyr o amrywiaeth o grwpiau sy’n cael eu tangynrychioli, nid yn unig ar gyfer etholiadau’r Senedd, ond mewn perthynas â phob etholiad datganoledig yng Nghymru.

**Goblygiadau ariannol**

**35) Pam nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys amcangyfrifon ariannol ar gyfer cynigion amgen, yn enwedig ar gyfer y darpariaethau hynny nad ydynt yn seiliedig ar argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig.**

Bwriad Llywodraeth Cymru oedd rhoi argymhellion adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar waith, ac mae wedi bod yn sail i’r Bil a’i Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Nodwyd tri mater polisi perthnasol ychwanegol yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig (preswyliad, hyd tymhorau a mecanwaith adolygu) yr ystyriwyd eu bod yn briodol i’r ddeddfwriaeth fynd i’r afael â nhw hefyd.

Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi lle ystyriwyd opsiynau gwahanol mewn perthynas â’r meysydd polisi hyn - er enghraifft, opsiwn arall o ran sut i gyflawni bwriad y polisi am ofyniad preswyliad. Ni fyddai’r gwahanol opsiynau hyn wedi

arwain at oblygiadau ariannol sylweddol wahanol ac felly nid yw’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys costau ar gyfer yr opsiynau hyn.

Ar ben hynny, byddai’r mecanwaith gweithredu ar gyfer rhai o’r cynigion drwy’r Gorchymyn Cynnal Etholiadau, a bydd ystyriaeth bellach o’r amcangyfrifon cost cysylltiedig ar gyfer y rheini’n cyd-fynd â deddfwriaeth o’r fath bryd hynny.

**36) Pa sicrwydd y gallwch ei roi bod y ffigurau yn y Memorandwm Esboniadol yn gadarn ac yn adlewyrchiad cywir o gost bosibl y cynigion.**

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Memorandwm Esboniadol yn cynnwys yr amcangyfrif gorau o gostau ac arbedion ar sail yr wybodaeth sydd ar gael ar y pryd ac ar y dystiolaeth a ddarparwyd gan Gomisiwn y Senedd, Awdurdodau Lleol, y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol a’r Comisiwn Etholiadol, yn ogystal ag amcangyfrifon Llywodraeth Cymru ei hun.

Datblygwyd yr amcangyfrifon drwy ddeialog gadarn dros nifer o fisoedd gyda phartneriaid ac adrannau ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau bod costau’n cael eu darparu mewn modd cyson ac i helpu i ddeall cyfansoddiad y data. Roedd gan bartneriaid eu mecanweithiau eu hunain ar gyfer asesu a chytuno ar amcangyfrif o gostau ac arbedion, a rhoddodd sicrwydd i Lywodraeth Cymru drwy egluro eu dull o wneud hynny lle nad oedd gan y llywodraeth rôl uniongyrchol.

Wrth ddatblygu’r amcangyfrifon datblygwyd nifer o dybiaethau ynghylch senarios tebygol i seilio’r cyfrifiadau cost arnynt. Mae’r rhain wedi’u hamlinellu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac yn darparu ystod o gostau posibl y tybir yn rhesymol y gallai’r gwir gostau fod.

Fel y nodir yn fanwl yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nid oedd yn bosibl costio rhai meysydd gyda chywirdeb rhesymol ar y pryd gan fod ffactorau anhysbys neu benderfyniadau nad ydynt wedi’u gwneud eto a allai effeithio ar amcangyfrifon (er enghraifft, yr adolygiad i baru etholaethau cyn etholiad y Senedd yn 2026, a phenderfyniadau a wneir gan Senedd newydd a Llywodraeth Cymru ar ôl etholiad 2026) a byddai angen rhagor o wybodaeth a phenderfyniadau er mwyn ystyried y goblygiadau cost. Fodd bynnag, yn unol â’r gofyniad yn y Rheolau Sefydlog, rydym wedi darparu’r amcangyfrifon gorau posibl o’r costau.

**37) Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad yw rhai costau wedi'u hamcangyfrif ar y sail eu bod yn destun penderfyniadau i'w gwneud gan y Seithfed Senedd a Llywodraeth Cymru sydd ar waith ar ôl 2026. A allwch roi amcangyfrif bras ar gyfer y costau ychwanegol anhysbys hyn a allai godi o ganlyniad i weithrediad y Bil.**

Fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae nifer o feysydd lle na fu’n bosibl amcangyfrif costau ac arbedion yn bendant gan fod angen rhagor o wybodaeth a phenderfyniadau er mwyn ystyried y goblygiadau cost.

Mae’r ffactorau anhysbys a allai, wrth wneud penderfyniadau yn ddiweddarach, effeithio ar yr amcangyfrifon (o ran costau neu arbedion) yn cynnwys y canlynol:

- y trefniadau paru ar gyfer etholaethau;
- penderfyniadau a wneir (ar ôl yr etholiad) gan y Senedd a Phrif Weinidog Cymru, er enghraifft, ar nifer y Pwyllgorau, Gweinidogion Cymru ac ati); a
- phenderfyniadau cyllidebol yn y dyfodol a newidiadau i ffyrdd o weithio nad ydynt o ganlyniad uniongyrchol i'r ddeddfwriaeth.

Mae'n bwysig nodi y gallai'r penderfyniadau hyn greu arbedion yn ogystal â chostau. Er enghraifft, unwaith y bydd y parau etholaethol yn hysbys ar gyfer cynnal etholiad 2026, bydd awdurdodau lleol yn gallu gwneud penderfyniadau ar amrywiaeth o faterion fel lleoliad gorsafoedd pleidleisio yn ogystal â maint a lleoliad y mannau cyfrif. Gall hyn arwain at gostau neu arbedion ychwanegol, ond nid oes modd rhagweld graddfa'r rhain ar hyn o bryd.

**<u>Mecanwaith i adalw Aelodau o'r Senedd</u>**

**38) Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i faterion sy'n ymwneud â mecanweithiau i alluogi etholwyr i adalw Aelodau o'r Senedd, gan gynnwys, er enghraifft, faint y gefnogaeth gyhoeddus a gwleidyddol ar gyfer darpariaethau o'r fath, a sut y gellid ymgorffori darpariaethau o'r fath yn system etholiadol arfaethedig Llywodraeth Cymru, sef cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig.**

Mae heriau sylweddol o ran gweithredu proses deiseb adalw mewn system etholiadol ar sail rhestr gyfrannol. Cafodd rhai o'r heriau hyn eu nodi mewn ymgynghoriad a gynhaliwyd ar gynnig Bil Aelodau Preifat yn yr Alban ar gyfer gweithredu system deiseb adalw mewn perthynas â seddi ar restr ranbarthol Senedd yr Alban, na allai bennu "sut y gallai'r aelod, ac ymgeiswyr eraill sy'n ceisio cael eu hethol ar gyfer sedd, gystadlu mewn unrhyw fath o is-etholiad."[12]

Fodd bynnag, byddwn, wrth gwrs, yn agored i unrhyw farn, tystiolaeth ac argymhellion y bydd y Pwyllgorau'n eu derbyn neu'n eu gwneud yn ystod y broses graffu.

**<u>Adnoddau a chyllid ar gyfer datblygu polisi'r gwrthbleidiau</u>**

**39) Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i ddatblygu cynigion i gefnogi datblygiad polisi gan wrthbleidiau gwleidyddol yng Nghymru.**

Ychydig o ystyriaeth mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i'r mater hwn. Mae Nodiadau Esboniadol y Bil yn nodi y gallai Pwyllgor sy'n adolygu'r gweithrediad ac effaith Rhannau 1 a 2 o'r Bil ystyried amrywiaeth o faterion Diwygio'r Senedd y mae'n ystyried sy'n berthnasol, fel "Cymorth i aelodau a phleidiau i gyflawni eu rolau yn y Senedd."[13]

Gellir nodi hefyd mai dim ond un elfen yw'r fframwaith deddfwriaethol mewn ystyriaeth ehangach o ran cefnogi datblygiad polisi gan wrthbleidiau gwleidyddol yng

---

[12] Removal from Office and Recall (Members of the Scottish Parliament) Bill- Ymgynghoriad gan Graham Simpson ASA, Aelod Canolbarth yr Alban [final-consultation-document-signed-off-by-gs.pdf (parliament.scot),] tudalen 27

[13] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), Nodiadau Esboniadol, paragraff 41.

Nghymru, a adlewyrchir gan sylwadau diweddar gan swyddogion Comisiwn y Senedd:

> *“mae hwn yn rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer sut bydd y Senedd newydd yn cael ei gweithredu o ran cymorth o ran staff y Comisiwn, o ran ariannu gan y bwrdd taliadau ac yn y blaen, ac mae trafodaethau yn cychwyn nawr rhwng y Comisiwn a'r bwrdd taliadau ynghylch hyn. Ac ar hyn o bryd hefyd, mae'r bwrdd taliadau yn ymwneud â rhaglen waith, a rhan o hynny yw adolygu'r PPSA, er enghraifft. Felly, mae'r trafodaethau yn cychwyn nawr gyda'r bwrdd taliadau ac Aelodau yn eu grwpiau, a gyda staff yr Aelodau ac yn y blaen, ond mae hwn i gyd o dan y fframwaith—roeddech chi'n gofyn am y rhaglen waith—felly, rhaglen diwygio'r Senedd, sy'n rhywbeth sydd yn cydlynu gwaith pob un o'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau—felly, y Comisiwn, y Pwyllgor Busnes, fforwm y Cadeiryddion a'r bwrdd taliadau—fel eu bod nhw'n gallu gweithredu gyda'i gilydd. Er eu bod nhw'n gwneud penderfyniadau yn annibynnol, maen nhw'n gweld amserlenni ei gilydd ac maen nhw i gyd yn gweithio i'r un tybiaethau ar y cychwyn o ran y costau. Ac o ran datblygu wedyn, eu bod nhw'n gweithio ar y cyd, fel bod pob rhan o'r jig-so yn mynd at ei gilydd. Felly, fel mae'r Llywydd yn ei ddweud, dyma gychwyn ar y broses, a nes bod y Bil yn cael ei gytuno ac yn dod allan fel Deddf, bydd rhai o'r pethau yma ddim yn cychwyn nes hynny, ond maen nhw i gyd yn yr amserlen ar gyfer y rhaglen.”*[14]

[14] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Biliau Diwygio, 25 Hydref 2023, Para 186, https://cofnod.senedd.cymru/Committee/13775